O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 446 (Cy. 74)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Queensferry i Barc Dewi Sant, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2012

Gwnaed *21 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *5 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o'r Gefnffordd o Ddolgellau i Fan i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2012. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Queensferry i Barc Dewi Sant, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2012.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;